No local member involvement and therefore no consultation necessary.
**2.Community / Town Council:**
No Community / Town Council involvement and therefore no consultation necessary.
**3.Relevant Partners:**
No Police and Fire Authority involvement and therefore no consultation necessary.
**4.Staff Side Representatives and other Organisations:**
There are no other organisations involved and therefore no consultation necessary.

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information**
**List of Background Papers used in the preparation of this report:**

**THESE ARE DETAILED BELOW**

| Title of Document | File Ref No. | Locations that the papers are available for public inspection |
|---|---|---|
| Licensing Policy File Contents. | Review of Licensing Policy 2018 | Licensing Section, 3 Spilman Street, Carmarthen |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

**Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel**

# Adolygiad o'r Polisi Trwyddedu

## Y Polisi Effaith Gronnol

## Heol Awst, Caerfyrddin

## Dogfen Ymgynghori 2018

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Adolygiad o'r Polisi Trwyddedu

## Y Polisi Effaith Gronnol

## Heol Awst, Caerfyrddin

## Dogfen Ymgynghori 2018

### Cyflwyniad

1. Pan fabwysiadodd yr Awdurdod y polisi cyfredol ym mis Chwefror 2016, penderfynwyd y byddai ymgynghoriad arall yn cael ei gynnal ynghylch y posibilrwydd o fabwysiadu'r polisi effaith gronnol yng nghyswllt ardal Heol Awst, Caerfyrddin.

2. Mae hwn yn gyfle i drigolion lleol, busnesau, deiliaid trwyddedau cyfredol a'u cynrychiolwyr gyflwyno sylwadau ffurfiol ar y cynllun a rhoi adborth i'r Awdurdod.

3. Mae cynllun sy'n dangos Heol Awst, Caerfyrddin wedi'i atodi, sef Atodiad 1. Mae Heol Awst wedi ei hamlygu'n goch o'i chyffordd â'r Porth Tywyll ac ar hyd y stryd yn ei chyfanrwydd hyd at ei chyffordd â Lôn Morfa. Pe câi ei fabwysiadu mewn perthynas â'r ardal hon, byddai'r polisi effaith gronnol yn cynnwys unrhyw safleoedd sy'n ffinio â Heol Awst.

   Bydd yr ymgynghori'n dechrau ar 3 Ebrill 2018 ac yn gorffen ar 1 Mehefin 2018

4. Mae'r paragraffau canlynol wedi'u hatgynhyrchu o'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref o dan adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003.

**Beth yw Effaith Gronnol?**

14.20 Ni chyfeirir yn benodol at "Effaith Gronnol" yn Neddf 2003 ond yn y Cyfarwyddyd hwn ei ystyr yw'r effaith bosibl ar hyrwyddo'r amcanion trwyddedu mewn perthynas â nifer sylweddol o'r safleoedd trwyddedig sydd mewn un ardal. Mae effaith gronnol safleoedd trwyddedig ar hyrwyddo'r amcanion trwyddedu yn fater y gall Awdurdod Trwyddedu ei ystyried wrth lunio ei Ddatganiad Polisi Trwyddedu. Gallai Polisïau Effeithiau Cronnol fod yn berthnasol i safleoedd sydd wedi eu trwyddedu i gynnal unrhyw weithgaredd trwyddedadwy, gan gynnwys gwerthu alcohol i'w yfed ar y safle neu oddi arno, a darparu lluniaeth hwyrnos. Mae hyn yn cynnwys lleoedd sy'n gwerthu bwyd brys gyda'r hwyr nad oes ganddynt drwydded i werthu alcohol.

**Effaith Polisïau Arbennig**

14.30 Effaith mabwysiadu polisi arbennig o'r math hwn yw creu rhagdybiaeth amodol y bydd ceisiadau am ganiatáu neu amrywio trwyddedau safle neu dystysgrifau safleoedd clybiau sy'n debygol o ychwanegu at yr effaith gronnol bresennol yn cael eu gwrthod fel rheol, neu'n ddarostyngedig i gyfyngiadau penodol, ar ôl i'r sylwadau perthnasol ddod i law,

oni bai y gall yr ymgeisydd ddangos yn yr atodlen weithredu na fydd effaith gronnol negyddol ar un neu ragor o'r amcanion trwyddedu. Dylai ymgeiswyr ystyried materion posibl o ran effaith gronnol wrth nodi yn eu cais y camau y byddant yn eu cymryd i hybu'r amcanion trwyddedu.

14.31 Er hynny, rhaid i bolisi arbennig bwysleisio nad yw'r rhagdybiaeth hon yn dileu'r angen i awdurdodau cyfrifol nac unrhyw un arall gyflwyno sylwadau perthnasol, gan gyfeirio at wybodaeth a oedd wedi'i rhoi gerbron yr awdurdod trwyddedu pan luniodd ei ddatganiad polisi trwyddedu, cyn y gall awdurdod trwyddedu ystyried rhoi ei bolisi arbennig ar waith yn gyfreithlon. Os nad oes sylwadau, rhaid i'r awdurdod trwyddedu ganiatáu'r cais yn unol â thelerau sy'n gyson â'r atodlen weithredu a gyflwynwyd.

14.32 Ar ôl iddynt gael eu mabwysiadu, dylid adolygu polisïau arbennig yn rheolaidd i asesu a oes eu hangen mwyach neu a ddylid newid y rheiny sydd yn natganiad y polisi trwyddedu.

14.33 Nid yw diffyg polisi arbennig yn atal unrhyw awdurdod cyfrifol neu berson arall rhag cyflwyno sylwadau ar gais am ganiatáu neu amrywio trwydded ar sail y ffaith y bydd y safle yn cael effaith gronnol, negyddol ar un neu ragor o'r amcanion trwyddedu.

14.34 Gallai polisïau arbennig fod yn berthnasol i grynhoad o unrhyw safleoedd trwyddedig, gan gynnwys y rheiny sydd wedi cael eu trwyddedu i werthu alcohol ar y safle neu oddi arno, a safleoedd sydd wedi eu trwyddedu i ddarparu lluniaeth hwyrnos. Wrth sefydlu ei sylfaen dystiolaeth ar gyfer cyflwyno polisi arbennig, dylai awdurdod trwyddedu fod yn ystyried y cyfraniad at effaith gronnol a wneir gan wahanol fathau o safleoedd yn yr ardal, er mwyn penderfynu ar briodoldeb cynnwys gwahanol fathau o safleoedd trwyddedig yn y polisi arbennig.

O'i fabwysiadu, byddai polisi effaith gronnol yn rhan o Bolisi Trwyddedu'r awdurdod.

5. Mae pedwar prif ddiben i'r Polisi Trwyddedu, sef:

- Cadarnhau, i Aelodau etholedig y Pwyllgor Trwyddedu, ffiniau a grym yr awdurdod lleol, a rhoi paramedrau iddynt ar gyfer gwneud penderfyniadau. Bydd modd i'r pwyllgor brofi'r cais yn erbyn y meini prawf a nodwyd yn y polisi ac os bydd angen, ychwanegu amodau at y rhai a amlinellwyd yn yr atodlen weithredu.

- Hysbysu'r rheiny sy'n ceisio am y drwydded ynghylch y paramedrau y mae'r awdurdod yn eu defnyddio i wneud penderfyniad ynglŷn â thrwydded, rhoi enghreifftiau o arferion rheoli da ac felly sut y mae safle trwyddedig yn debygol o fod yn gallu gweithredu o fewn ardal. (Sylwer, er hynny, fod yn rhaid craffu ar bob achos yn unigol.)

- Hysbysu trigolion a busnesau ynghylch y paramedrau y bydd yr awdurdod yn eu defnyddio wrth wneud penderfyniadau trwyddedu, ac felly sut yr ymdrinnir â'u hanghenion.

- Hysbysu llys barn ynghylch sut y daeth y Cyngor i'w benderfyniadau pan gânt eu herio mewn llys, a chefnogi'r penderfyniadau hyn.

6. Bwriedir y papur ymgynghori hwn ar gyfer trigolion lleol, busnesau, deiliaid trwyddedau cyfredol a'u cynrychiolwyr. Yn wir, mae'r Cyngor yn awyddus i dderbyn sylwadau pawb sydd a wnelont â'r mater.

7. Mae'r Cyngor wedi nodi'r bobl a'r mudiadau a allai fod â diddordeb mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Er hynny, byddai'r Cyngor yn croesawu barn unrhyw rai sydd a wnelont â hyn, ac mae croeso i unrhyw un sy'n cael copi o'r papur hwn ei gyfeirio at sylw eraill a allai fod am ymateb i'r ymgynghoriad.

8. Er mwyn cynnig sylwadau manwl ar y Polisi Effaith Gronnol, efallai y byddai ymatebwyr yn dymuno'n gyntaf ddarllen y cyfarwyddyd a gafodd ei gyhoeddi, o dan y Ddeddf, gan yr Ysgrifennydd Gwladol i awdurdodau lleol, yn ogystal â'r Polisi Trwyddedu cyfredol a'r Ddeddf Trwyddedu ei hun. Gellir gweld y dogfennau hyn ar wefan y Cyngor, www.sirgar.gov.uk drwy chwilio am ymgynghoriadau cyfredol.

Mae copïau o'r dogfennau hyn wedi'u rhoi ar gadw hefyd at ddibenion cyfeirio yng nghanolfan gwasanaethau cwsmeriaid y Cyngor yn 3 Heol Spilman, Caerfyrddin.

## Ymateb i'r Ymgynghoriad

9. Cynghorir ymatebwyr fod yn rhaid i unrhyw newidiadau yng nghynnwys y polisi trwyddedu adlewyrchu'r pedwar (4) amcan trwyddedu statudol, sef:-

- **Atal Troseddau ac Anhrefn**
- **Diogelu'r Cyhoedd**
- **Atal Niwsans Cyhoeddus**
- **Amddiffyn Plant rhag Niwed**

10. Mae eich barn chi'n bwysig i'r Cyngor wrth iddo geisio llunio polisi trwyddedu teg a chymesur. **A fyddech cystal â sicrhau bod eich sylwadau yn ein cyrraedd erbyn 1 Mehefin 2018, er y byddem yn ddiolchgar pe gallem eu cael cyn hynny.**

11. I gynorthwyo ymatebwyr, rydym wedi creu arolwg ar-lein, sy'n cynnwys cwestiynau sy'n gofyn am ymateb i faterion penodol. Rhoddir gwybod i gyfranogwyr fod modd lanlwytho gwybodaeth atodol megis ystadegau a datganiadau ategol fel atodiad i'r arolwg ar ffurf Word neu PDF.

    Os hoffech gael copi caled o'r holiadur cysylltwch ag Emyr Jones. Mae ei fanylion cyswllt ar gael isod.

Yn ogystal, gall y ddogfen ymateb gael ei hanfon atom drwy e-bost, diogelurcyhoedd@sirgar.gov.uk

12. Bydd yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hystyried yn ystod adolygu'r polisi. Yn anffodus ni fydd yn bosibl rhoi ateb manwl i bob un sy'n ymateb i'r ymgynghoriad.

13. Manylion Cyswllt

**Emyr Jones**
**Arweinydd Trwyddedu**
**Is-adran Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel**
**Adran Cymunedau**
**Cyngor Sir Caerfyrddin**
**3 Heol Spilman**
**Caerfyrddin**
**SA31 1LE**

**Cyfeiriad e-bost: diogelurcyhoedd@sirgar.gov.uk**

**Diolch ichi am roi o'ch amser i ymateb i'r ymgynghoriad hwn.**

14. Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am y ddogfen ymgynghori neu'r Ddeddf Trwyddedu, ffoniwch yr Adain Drwyddedu (01267 228717). Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael ar http://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/ymgynghori-a-pherfformiad/

**Os ydych am gael**
**y ddogfen hon ar ffurf print bras,**
**mewn Braille neu ar dâp sain,**
**ffoniwch:**
**☏01267 228717**

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

Eiddo Corfforaethol / Corporate Property
Adfywio a Pholisi / Regeneration & Policy
Nantyci
Llanllwch
SA33 5DR

# Atodiad A / Appendix A


Heol Awst / Lammas Street

Heol Mansel Street

Heol Dwr / Water Street

Lon Morfa Lane

Porth Tywyll / Dark Gate




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2018 Arolwg Ordnans 100023377
© Crown copyright and database rights 2018 Ordnance Survey 100023377

# Deddf Trwyddedu 2003
# Adolygiad o'r Polisi Trwyddedu
# Y Polisi Effaith Gronnol
# Heol Awst, Caerfyrddin
# Dogfen Ymgynghori 2018

## Rhan 1 - Manylion Amdanoch

1. Ydych chi'n ymateb fel…?

- ◯ Deiliad trwydded safle
- ◯ Deiliad trwydded bersonol
- ◯ Deiliad tystysgrif safle clwb
- ◯ Aelod o'r cyhoedd
- ◯ Busnes
- ◯ Corff sy'n cynrychioli deiliaid trwydded/clybiau
- ◯ Corff/Unigolyn sy'n cynrychioli aelodau o'r cyhoedd (Cynghorau Tref a Chynghorau Cymuned, Cynghorwyr Sir ac ati)
- ◯ Corff sy'n cynrychioli busnesau lleol
- ◯ Grŵp neu Sefydliad arall

Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad neu grŵp, nodwch ei enw isod

[ ]

Yn dilyn 'SA', nodwch y ddau rif sydd yn eich côd post

- ◯ 4
- ◯ 9
- ◯ 14
- ◯ 15
- ◯ 16
- ◯ 17
- ◯ 18
- ◯ 19
- ◯ 20
- ◯ 31
- ◯ 32
- ◯ 33
- ◯ 34
- ◯ 35
- ◯ 37
- ◯ 38
- ◯ 39
- ◯ 40
- ◯ 44
- ◯ 48
- ◯ 66
- ◯ 67
- ◯ tu allan i'r sir

## Rhan 2

I ba raddau ydych yn cytuno neu?n anghytuno â'r gosodiadau canlynol?

2. A ydych yn cytuno bod ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag alcohol yn dal i fod yn broblem yn Stryd Awst, Caerfyrddin.

○ Cytuno'n bendant ○ Cytuno ○ Dim un o'r ddau ○ Anghytuno ○ Anghytuno 'n bendant

Os ydych yn cytuno dywdwch:

a) Ble mae'r broblem?

b) Pryd mae'n broblem?

c) Pam yr ydych yn meddwl ei fod yn broblem?

**3. I ba raddau ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r gosodiadau canlynol: (i gael rhagor o wybodaeth am bolisïau effaith gronnol gweler paragraffau 14.20 - 14.39 o adran 182 o'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref).**

| | Cytuno'n bendant | Cytuno | Dim un o'r ddau | Anghytuno | Anghytuno'n bendant |
|---|---|---|---|---|---|
| Bod angen Polisi Effaith Gronnol o hyd yn ardal Heol Awst, Caerfyrddin. | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Ddylai'r polisi fod yn berthnasol i'r cyfan o Heol Awst a ddangosir ar y map atodedig? | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |

Rhowch eich rhesymau a thystiolaeth i ategu eich atebion

**4. A oes angen Polisi Effaith Gronnol ar gyfer y strydoedd sydd wedi'u lliwio ar y cynllun, sy'n arwain at Heol Awst, Caerfyrddin, neu i ffwrdd ohoni?**

○ Cytuno'n bendant ○ Cytuno ○ Dim un o'r ddau ○ Anghytuno ○ Anghytuno 'n bendant

Nodwch pa rannau o'r strydoedd hynny:

Nodwch eich rhesymau a thystiolaeth fod/nad oes angen polisi o'r fath.

**5. I ba raddau ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r gosodiadau canlynol:**

| | Cytuno'n bendant | Cytuno | Dim un o'r ddau | Anghytuno | Anghytuno'n bendant |
|---|---|---|---|---|---|
| A ddylai'r polisi effaith gronnol fod yn berthnasol i safleoedd sy'n dymuno gwerthu alcohol i'w yfed ar y safle? | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| A ddylai'r polisi effaith gronnol fod yn berthnasol i safleoedd sydd am werthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle? (Gweler paragraff 4(14.34) o'r ddogfen ymgynghori.) | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |

Amlinellwch eich rhesymau a thystiolaeth ddylai'r polisi effaith gronnol fod yn berthnasol i safleoedd sy'n dymuno gwerthu alcohol i'w yfed ar y safle (e.e. enghreifftiau o ddigwyddiadau)

Amlinellwch eich rhesymau a thystiolaeth ddylai'r polisi effaith gronnol fod yn berthnasol i safleoedd sy'n dymuno gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle (e.e. enghreifftiau o ddigwyddiadau)

**6. A ddylai'r polisi effaith gronnol fod yn berthnasol i safleoedd sydd am ddarparu lluniaeth hwyrnos (e.e. safleoedd cludfwyd)?**

○ Cytuno'n bendant ○ Cytuno ○ Dim un o'r ddau ○ Anghytuno ○ Anghytuno 'n bendant

Amlinellwch eich rhesymau a thystiolaeth paham ddylai'r polisi effaith gronnol fod yn berthnasol/amerthnasol i safleoedd sydd am ddarparu lluniaeth hwyrnos(e.e. enghreifftiau o ddigwyddiadau)

## Rhan 3 - Eich Manylion Personol (Dewisol)

Enw:

Cyfeiriad

Rhif ffôn:

E-bost

O dan rai amgylchiadau, efallai y byddwn yn dymuno cysylltu â chi ymhellach ar ôl cael eich ymateb, un ai i ofyn am sylw ychwanegol neu i ateb y pwyntiau yr ydych wedi'u codi.

A ydych yn cydsynio i Gyngor Sir Caerfyrddin ddefnyddio eich manylion yn y ffordd hon?

- ○ Ydw - Rwy'n hapus ichi gysylltu â mi.
- ○ Nac ydw - Nid wyf am ichi gysylltu â mi

**Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth**

Rydym yn casglu data personol amdanoch drwy'r ffurflen hon i gydymffurfio â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, ynghylch cynnal ymgynghoriadau.

Bydd eich data personol ond yn cael ei ddefnyddio at ddibenion yr ymgynghoriad hwn gan y tîm Trwyddedu ac ni fydd yn cael ei rannu ag unrhyw wasanaeth arall y Cyngor na sefydliadau allanol. Pan fyddwn yn cyhoeddi adroddiad ar yr ymgynghoriad hwn, ni fydd yn cynnwys eich manylion personol.

I gael rhagor o wybodaeth am sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth am eich hawliau Diogelu Data, cysylltwch â'r Adain Drwyddedu drwy ffonio 01267 228717.

**Diolch am eich ymateb**

# Y PWYLLGOR TRWYDDEDU
# 24AIN O FAI 2018

## DEDDF TRWYDDEDU 2003
## CAIS YN YMWNEUD Â DOSBARTHIAD FFILM

**Yr Argymhellion / Penderfyniadau Allweddol Sydd Eu Hangen:**

Bod y Pwyllgor yn gwylio'r tair ffilm fer ac yn gwneud argymhelliad ynghylch caniatáu i blant wylio'r ffilmiau gan gyfeirio at ganllawiau dosbarthiad y BBFC.

Hynny yw, mewn perthynas â'r ffilm yn dwyn y teitl "Titch"y dylid dangos y ffilm yn unol â dosbarthiad PG, mewn perthynas â'r ffilm yn dwyn y teitl "Dial-a-Ride Heli" y dylid dangos y ffilm yn unol â dosbarthiad 12A ac mewn perthynas â'r ffilm yn dwyn y teitl "Marw Stripio" y dylid dangos y ffilm yn unol â dosbarthiad 15.

**Y Rhesymau:**

Sicrhau nad yw dangos y ffilmiau yn tanseilio'r amcanion trwyddedu ac yn arbennig o ran amddiffyn plant rhag niwed.

| | |
|---|---|
| **Ymgynghorwyd â'r Pwyllgor Craffu perthnasol** | **Amherthnasol** |
| **Angen i'r Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniad** | **Amherthnasol** |
| **Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad** | **Amherthnasol** |

**Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol sy'n Dal y Portffolio:** Y Cynghorydd P.M. Hughes

| Y Gyfarwyddiaeth:<br>Cymunedau | Swydd: | Rhifau Ffôn:<br>Cyfeiriadau E-bost: |
|---|---|---|
| Enw Pennaeth y Gwasanaeth<br>Mr Jonathan Morgan | Pennaeth Dros Dro Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel | 01554 899285<br>jmorgan@sirgar.gov.uk |
| Awdur yr Adroddiad<br>Emyr Jones | Pen-swyddog Trwyddedu | 01267 228717<br>eorjones@sirgar.gov.uk |

# EXECUTIVE SUMMARY

## LICENSING COMMITTEE
## 24TH MAY 2018

| LICENSING ACT 2003<br>FILM CLASSIFICATION REQUEST |
|---|

To consider a request from Mrs Mair Craig on behalf of Llansadwrn Reading Rooms for a recommendation regarding the admission of children to view three previously unclassified short films.

The applicant wishes to screen three films, "Titch ", Dial-a-Ride and "Marw Stripio" prior to the screening of a certificated feature film at the community cinema.

The premises intend operating the community cinema under the community premises exemptions set out in paragraph 6A of Schedule one of the Licensing Act 2003.

In order to satisfy the requirements of the Licensing Act 2003, the films shown must have a recommendation concerning the admission of children issued by either the film classification body (BBFC) or relevant licensing authority, which in this case is ourselves.

The committee is asked to refer to the guidelines in relation to age ratings produced by the British Board of Film Classification (BBFC) which will be circulated at the meeting.

| DETAILED REPORT ATTACHED ? | NO |
|---|---|



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

# IMPLICATIONS

| |
|---|
| **I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report :**<br><br>**Signed: Mr Jonathan Morgan Acting Head of Homes and Safer Communities** |

| Policy and Crime & Disorder | Legal | Finance | ICT | Risk Management Issues | Organisational Development | Physical Assets |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** |

# CONSULTATIONS

| |
|---|
| **I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below**<br><br>**Signed: Mr Jonathan Morgan Acting Head of Homes and Safer Communities** |

**1.Local Member(s):**
No local member involvement and therefore no consultation necessary.

**2.Community / Town Council:**
No Community / Town Council involvement and therefore no consultation necessary.

**3.Relevant Partners:**
No Police and Fire Authority involvement and therefore no consultation necessary.

**4.Staff Side Representatives and other Organisations:**
There are no other organisations involved and therefore no consultation necessary.

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information**
**List of Background Papers used in the preparation of this report:**

**THESE ARE DETAILED BELOW**

| **Title of Document** | **File Ref No.** | **Locations that the papers are available for public inspection** |
|---|---|---|
| Application Form and File Contents. | Llansadwrn Reading Rooms | Licensing Section, 3 Spilman Street, Carmarthen |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# PWYLLGOR TRWYDDED
# 24AIN O FAI 2018

## PENODI AELODAU I EISTEDD AR IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU 2018-19

**Argymhellion / Penderfyniadau Allweddol Sydd Eu Hangen:**

I ystyried a chytuno aelodau i eistedd ar y 2 is-bwyllgor Trwyddedu ar gyfer 2018/19.

**Rhesymau:**

Er mwyn sicrhau y caiff swyddogaethau'r Cyngor o dan ddarpariaethau'r Deddf Trwyddedu 2003 eu gweithredu yn effeithiol, mae angen I'r Pwyllgor Trwyddedu cadarnhau aelodaeth y ddau Is-Bwyllgor Trwyddedu ar gyfer flwyddyn y Cyngor 2018/19.

| | |
|---|---|
| **Ymgynghorwyd â'r Pwyllgor Craffu perthnasol** | **AMH** |
| **Angen i'r Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniad** | **NA** |
| **Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad** | **NA** |

**Aelod y Bwrdd Gweithredol sy'n Deiliad y Portfolio:** Cynghorydd P.M. Hughes

| | | |
|---|---|---|
| Y Gyfarwyddiaeth:<br>Prif Weithredwr | Swyddi: | |
| Enw Pennaeth y Gwasanaeth:<br>Linda Rees Jones | Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith | |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Gaynor Morgan | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd | Rhif Ffôn: 01267 224026<br>E-bost: GMorgan@sirgar.gov.uk |

# EXECUTIVE SUMMARY
# LICENSING COMMITTEE

## 24TH MAY 2018

## APPOINTMENT OF MEMBERS TO SIT ON LICENSING SUB-COMMITTEES 2018-19

The Committee considers the following proposed membership in respect of Licensing Sub-Committees A & B:-

**Sub-Committee "A"**

Councillor Andre Mc Pherson
Councillor Mansel Charles
Councillor Ann Davies
Councillor Rob Evans
Councillor Amanda Fox
Councillor Ken Howell
Councillor Elwyn Williams

**Sub-Committee "B"**

Councillor Alun Davies
Councillor Tyssul Evans
Councillor Penny Edwards
Councillor Iron Jones
Councillor John Prosser
Councillor Edward Thomas
Councillor Eirwyn Williams

NOTE: Three members of the Sub-Committee will be drawn from those seven members on a rotational basis on any given day.

| DETAILED REPORT ATTACHED? | NO |
| --- | --- |


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

# IMPLICATIONS

**I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report :**

**Signed: Linda Rees-Jones** **Head of Administration & Law**

| Policy and Crime & Disorder | Legal | Finance | ICT | Risk Management Issues | Organisational Development | Physical Assets |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** |

# CONSULTATIONS

**I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below**

**Signed: Linda Rees-Jones** **Head of Administration & Law**

**1.Local Member(s):**
**N/A**
**2.Community / Town Council:**
**N/A**
**3.Relevant Partners:**
**N/A**
**4.Staff Side Representatives and other Organisations:**
**N/A**

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information**
**List of Background Papers used in the preparation of this report:**

**THERE ARE NONE**

| Title of Document | File Ref No. | Locations that the papers are available for public inspection |
|---|---|---|
| | | |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU A

Dydd Mawrth, 6 Mawrth 2018

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd J.M. Charles (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
R.E. Evans and C.A. Davies

**Hefyd yn bresennol fel sylwedyddion**: Y Cynghorwyr F.Akhtar ac K. Howell

**Yn bresennol fel cynrychiolydd Awdurdod Cyfrifol:-**
Mr E. Jones – Pen-swyddog Trwyddedu, Cyngor Sir Caerfyrddin;

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
R. Edmunds, Rheolwr Materion Defnyddwyr a Busnes
K. Byrne, Cyfreithiwr Cynorthwyol
K. Smith, Licensing Officer
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Chamber, County Hall, Carmarthen - County Hall, Carmarthen - 10.00 - 10.40 am**

## 1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiannau personol.

## 2. CAIS AM DRWYDDED SAFLE - ETTO'S COFFEE SHOP, 25 HIGH STREET, LLANDYBIE, SA18 3HX

Rhoddodd y Cyfreithiwr Cynorthwyol wybodaeth i bawb oedd yn bresennol am drefn y cyfarfod, a hysbysodd yr Is-bwyllgor fod cais wedi dod i law am Drwydded Safle ar gyfer Etto's Coffee Shop, 25 Stryd Fawr, Llandybie, SA18 3HX i ganiatáu'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyflenwi Alcohol | Dydd Sul tan ddydd Iau 12:00 – 22:00 |
| | Dydd Gwener a Dydd Sadwrn 12:00 – 23:00 |
| Oriau Agor: | Dydd Sul tan ddydd Iau 07:00 – 22:30 |
| | Dydd Gwener a Dydd Sadwrn 07:00 – 23:30 |

Nododd yr Is-bwyllgor fod y dogfennau canlynol ynghlwm wrth yr adroddiad:

- Atodiad A – Copi o'r cais
- Atodiad B – Sylwadau'r Awdurdod Trwyddedu
- Atodiad C – Sylwadau a gyflwynwyd gan Heddlu Dyfed-Powys
- Atodiad D - Sylwadau gan bobl eraill

Yn ogystal â'r uchod, cafodd yr Is-bwyllgor, yn dilyn cytundeb yr holl bartïon oedd yn bresennol, y dogfennau ychwanegol canlynol:

- Cynllun yn dangos lleoliad y safle
- Gohebiaeth gan Heddlu Dyfed-Powys yn tynnu ei wrthwynebiadau yn ôl ar ôl dod i gytundeb â'r ymgeisydd ynghylch cynnwys yr 18 o amodau a awgrymwyd ar y Drwydded, pe caniateir.

- Gohebiaeth gan yr ymgeisydd dyddiedig 17 Chwefror, yn derbyn yr 18 o amodau a awgrymwyd gan yr Heddlu.

Cyfeiriodd cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu at ei sylwadau ysgrifenedig, fel y nodwyd yn Atodiad B i'r adroddiad, a chadarnhaodd yn dilyn hynny, bod Heddlu Dyfed-Powys wedi dweud wrth yr Awdurdod Trwyddedu ei fod yn tynnu ei sylwadau yn ôl ar sail cytundeb a wnaed gyda'r ymgeisydd ynghylch cynnwys yr 18 o amodau a awgrymwyd ar y Drwydded. O ganlyniad i'r cytundeb hwnnw, awgrymodd pe bai'r Is-bwyllgor yn penderfynu caniatáu'r cais fel y cyflwynwyd, byddai'r 18 o amodau hynny yn disodli'r amodau a oedd ynghlwm â'r atodlen weithredu wreiddiol.

Cyfeiriodd cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu hefyd at Atodiad D yr adroddiad ac at y sylwadau a gafwyd gan Gyngor Cymuned Llandybie a nodai er bod y cyngor yn cefnogi'r cais, roedd o'r farn y dylid gosod cyfyngiad ar werthu alcohol tan ar ôl 6.00 p.m. pan fyddai'n llai tebygol y byddai plant heb gwmni oedolyn yn bresennol pan gaiff alcohol ei werthu. Yn dilyn y sylwadau hynny, roedd yr Awdurdod Trwyddedu wedi ystyried darpariaethau Paragraff 91 o Bolisi Trwyddedu'r Cyngor a rhannau 14.46 ac 14.49 y Canllawiau Statudol sy'n ymwneud â mynediad plant at safleoedd trwyddedig, ac roedd o'r farn nad oedd unrhyw ofyniad i osod amodau ychwanegol ar y Drwydded.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon oedd yn bresennol holi cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu ynghylch ei sylwadau.

Cafwyd sylw a oedd yn cefnogi'r cais ac yn cyfeirio at y modd rhagorol y mae'r busnes yn gweithredu ar hyn o bryd, gan ddarparu swyddi ychwanegol a denu mwy o bobl i bentref Llandybie. Ni chafodd pryderon Cyngor Cymuned Llandybïe eu cefnogi.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon ofyn cwestiynau i'r cefnogwr ynghylch ei sylwadau.

Amlinellodd yr ymgeisydd i'r Is-bwyllgor ei resymau dros geisio trwydded safle er mwyn galluogi cwsmeriaid i fwyhau diodydd alcoholaidd â the prynhawn/ byrbrydau gyda'r hwyr ac ati mewn amgylchedd tŷ coffi. Ar hyn o bryd mae'r safle yn gweithredu fel tŷ coffi sy'n darparu ar gyfer amrywiaeth o gwsmeriaid gan gynnwys teuluoedd â phlant. Gan fod yr ymgeisydd yn gwerthfawrogi'r grŵp hwnnw o gwsmeriaid yn fawr, nid yw am golli'r cwsmeriaid hynny drwy newid hanfod y busnes i fod yn fan yfed arall. I'r perwyl hwnnw, ni fyddai'n goddef unrhyw fath o ymddygiad afreolus a gallai ystyried codi prisiau alcohol i atal y fath sefyllfa rhag digwydd.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon oedd yn bresennol holi'r ymgeisydd ynghylch ei sylwadau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16, Atodlen 12 o Ddeddf Llywodraeth Leol.**

**Ar ôl y toriad ailymgynullodd yr Is-bwyllgor i gyhoeddi ei benderfyniad ac ar ôl ystyried y paragraffau perthnasol o Ddatganiad Polisi Trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu a'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a chan y Swyddfa Gartref**

**PENDERFYNWYD bod y cais am Drwydded Safle ar gyfer Etto's Coffee shop, 25 Stryd Fawr, Llandybïe i werthu alcohol yn ystod yr oriau y gofynnwyd amdanynt yn cael ei ganiatáu yn amodol ar atodi'r amodau trwyddedu y cytunwyd arnynt rhwng yr ymgeisydd, yr Awdurdod Trwyddedu a Heddlu Dyfed-Powys i'r drwydded.**

Y RHESYMAU

Wrth benderfynu ar y cais, yr oedd y ffeithiau canlynol yn hysbys i'r Is-bwyllgor;

1. Nid oedd y safle wedi cael trwydded o'r blaen o dan Ddeddf 2003
2. Nid oedd dim hanes o gamau gorfodi materion trwyddedu yn ymwneud â'r safle
3. Nid oedd yr un o'r awdurdodau cyfrifol yn gwrthwynebu caniatáu trwydded ar gyfer gwerthu alcohol, yn unol â'r amodau y cytunwyd arnynt gyda'r ymgeisydd.
4. Un gwrthwynebiad yn unig oedd wedi dod i law ynghylch yr oriau agor ac ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth a oedd yn mynnu'r fath gyfyngiad
5. Roedd yr aelodau yn hapus bod y broses adolygu trwydded ar waith i ddiogelu rhag ofn y byddai unrhyw broblemau yn y dyfodol ynghylch y drwydded.

Roedd yr Is-bwyllgor wedi rhoi pwys ar farn yr awdurdodau cyfrifol ac wedi ystyried y polisi trwyddedu a'r canllawiau statudol.

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU B

Dydd Iau, 25 Ionawr 2018

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd H.I. Jones (Yn y Gadair)

**Y Cynghorwyr:** P.M. Edwards, W.T. Evans.

**Hefyd yn bresennol fel sylwedyddion**: Y Cynghorydd J.G. Prosser

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol;
K. Byrne, Cyfreithiwr Cynorthwyol;
A. Rees, Swyddog Trwyddedu;
K. Smith, Swyddog Trwyddedu;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Siambr, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin – 10:00am - 11:25am**

**[SYLWER: Yn absenoldeb y Cynghorydd A. Davies, Cadeirydd Is-bwyllgor B, enwebwyd a phenodwyd y Cynghorydd H.I Jones yn Gadeirydd].**

## 1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 2. CAIS AM DRWYDDED SAFLE - CO-OP, HEOL FFYNNON JOB, TRE IOAN, CAERFYRDDIN SA31 3PY

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol wybodaeth i bawb a oedd yn bresennol am drefn y cyfarfod, a hysbysodd fod cais wedi dod i law gan Co-operative Group Food Ltd. am drwydded safle ar gyfer Co-op, Heol Ffynnon Job, Tre Ioan, Caerfyrddin i ganiatáu'r canlynol:

Cyflenwi Alcohol:- Dydd Llun i ddydd Sul 06:00 – 23:00.

Nododd yr Is-bwyllgor fod y dogfennau canlynol ynghlwm wrth yr adroddiad:-

Atodiad A - copi o'r cais gwreiddiol a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd;
Atodiad B - sylwadau'r Awdurdod Trwyddedu;
Atodiad C - sylwadau Heddlu Dyfed-Powys;
Atodiad D - sylwadau gan bobl eraill.

Nid oedd yr awdurdodau cyfrifol eraill wedi gwneud unrhyw sylwadau mewn perthynas â'r cais.

Gyda chytundeb yr holl bartïon, dosbarthwyd copïau o'r dogfennau ychwanegol i'r Is-bwyllgor, a oedd yn cynnwys cynllun o'r safle arfaethedig. Ystyriwyd gan yr Is-bwyllgor bod y ddogfen wedi'i derbyn cyn clywed gan y partïon.

Yna cyflwynwyd sylwadau i'r Is-bwyllgor gan bedwar barti â buddiant a oedd yn gwrthwynebu rhoi'r drwydded safle am y rhesymau a nodwyd yn Atodiad D.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon holi'r gwrthwynebwyr ynghylch eu sylwadau.

Yna cyflwynwyd sylwadau i'r Is-bwyllgor gan yr ymgeisydd am drwydded safle a nodwyd yn Atodiad A ac ymatebwyd i'r pryderon a'r materion a godwyd.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon holi'r ymgeisydd ynghylch y sylwadau a wnaed.

**Yna PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gan yr Is-bwyllgor gynnal sesiwn breifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A y Ddeddf Llywodraeth Leol.**

Ar ôl y toriad ailymgynullodd yr Is-bwyllgor i gyhoeddi ei benderfyniad ac ar ôl ystyried y paragraffau perthnasol o Ddatganiad Polisi Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu a'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a chan y Swyddfa Gartref

**PENDERFYNWYD, ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a oedd wedi ei rhoi gerbron yr Is-bwyllgor, fod y cais yn cael ei ganiatáu, a hynny'n unol â'r amodau trwyddedu ychwanegol yr oedd yr ymgeisydd a'r heddlu wedi cytuno arnynt.**

**RHESYMAU:-**

Wrth benderfynu ar y cais, yr oedd y ffeithiau canlynol yn hysbys i'r Is-bwyllgor;

1. Ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth o droseddau ac anhrefn sylweddol mewn perthynas ag alcohol yn ardal y safle arfaethedig;

2. Ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth o unrhyw fethiannau sylweddol gan yr ymgeiswyr o ran cydymffurfio â deddfau trwyddedu mewn safleoedd eraill;

3. Nid oedd yr un o'r awdurdodau cyfrifol yn gwrthwynebu'r cais;

4. Roedd yr heddlu'n fodlon bod amodau'r drwydded y cytunwyd arnynt gyda'r ymgeisydd yn ddigonol er mwyn hybu'r amcanion trwyddedu.


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

Roedd yr Is-bwyllgor yn rhoi pwys ar farn yr awdurdodau cyfrifol a'r absenoldeb o unrhyw wrthwynebiadau ganddynt.

Roedd yr Is-bwyllgor yn derbyn bod y gwrthwynebwyr lleol yn ddiffuant yn eu pryderon ac roeddent yn deall pam.  Fodd bynnag, roedd yr Is-bwyllgor yn gyfyngedig o dan y gyfraith o ran yr hyn y gallent ei ystyried ai peidio. Ymhellach, nid oedd yr Is-bwyllgor yn gallu ystyried materion o ran angen a'r effaith ar fusnesau eraill. Yn yr un modd, ni allai'r Is-bwyllgor ragweld y broses gynllunio na'i dyblygu.

Yr oedd yr Is-bwyllgor yn cydnabod bod yn rhaid i'w benderfyniad gael ei seilio ar dystiolaeth wirioneddol, ac nad oedd pryderon nac ofnau ynghylch yr hyn a allai ddigwydd pe caniateid trwydded, lle nad oedd tystiolaeth o'r fath i'w hategu, yn faterion y gallai roi ystyriaeth briodol iddynt. Yn yr un modd, ni allai'r Is-bwyllgor ystyried materion o ran 'angen' na'r ffynonellau alcohol eraill a oedd yn yr ardal.

Wrth ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd, ni allai'r Is-bwyllgor weld unrhyw reswm i wrthod y cais ar sail y gyfraith.  Felly, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod caniatáu'r cais, yn unol â'r amodau hynny y cytunwyd arnynt gan yr ymgeisydd a'r heddlu, yn briodol o ran amcanion trwyddedu, a bod yr amodau ychwanegol y cytunwyd arnynt yn gymesur.

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# PWYLLGOR TRWYDDEDU
**4$^{YDD}$ EBRILL 2018**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E.G. Thomas (Cadeirydd).

**Y Cynghorwyr:**
F. Akhtar, J.M. Charles, C.A. Davies, P.M. Edwards, R.E. Evans, W.T. Evans, A.L. Fox, J.K. Howell, H.I. Jones, J.G. Prosser, D.E. Williams a J.E. Williams.

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
J. Power, Uwch Swyddog Trwyddedu;
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol;
E. Jones, Pen-swyddog Trwyddedu;
M. Heath, Swyddog Trwyddedu;
K. Smith, Swyddog Trwyddedu;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

Yn cynrychioli Awdurdod yr Heddlu - Mr M. Price.

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin – 10:00am - 12:45pm**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd A. Davies.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 3. MR UMAAR BIN HAMEED - TRWYDDED YRRU DDEUOL AR GYFER CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Mr Umaar Bin Hameed o Fflat 2, 27 Heol Picton, Caerfyrddin, yn meddu ar Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat gan yr Awdurdod a bod mater wedi codi ynghylch ei drwydded. Nododd y Pwyllgor nad oedd Mr Hameed yn bresennol yn y cyfarfod heddiw, nad oedd wedi cysylltu â'r swyddogion i gynnig esboniad ynghylch hynny a'i fod wedi cael gwybod pe na bai'n bresennol yn y cyfarfod heddiw y gallai'r mater gael ei ystyried ac yntau'n absennol. Yn ogystal, nododd y Pwyllgor fod yr achwynydd yn bresennol. Felly:

**PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor yn ystyried y mater a godwyd yn absenoldeb Mr Hameed.**

Adroddwyd 3 o ddatganiadau tyst i'r Pwyllgor gan yr Uwch-swyddog Trwyddedu. Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â'r achwynydd ynghylch y mater.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod Trwydded Yrru Ddeuol Mr Hameed ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat yn cael ei hatal am 14 diwrnod.

Ar hynny,

**PENDERFYNODD y Pwyllgor gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD yn unol â chanllawiau'r Cyngor, atal Trwydded Yrru Ddeuol Mr Ummar Bin Hameed ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat am 14 diwrnod.**

Y Rhesymau

Ar ôl ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd, yr oedd y Pwyllgor o'r farn bod achos rhesymol yn bodoli oherwydd y rhesymau canlynol:

- Ym marn y Pwyllgor yr oedd tystiolaeth yr achwynydd yn gredadwy ac yn rymus.
- Nid oedd Mr Hameed wedi dod i'r cyfarfod.
- Er bod y Pwyllgor yn derbyn nad oedd Mr Hameed wedi dweud yn agored ei fod yn gwrthod mynd â'r achwynydd a'i chi tywys, credir nad oedd wedi mynd â nhw heb achos rhesymol.
- Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod hyn yn golygu bod achos rhesymol dros atal Trwydded Yrru Ddeuol Mr Hameed ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

## 4. MR EIRWYN LYN DAVIES - TRWYDDED YRRU DDEUOL AR GYFER CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Mr Eirwyn Lyn Davies o Fro Helyg, Heol Pontarddulais, Tŷ-croes, Rhydaman, yn meddu ar Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat gan yr Awdurdod a bod mater wedi codi ynghylch ei drwydded.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Davies ynghylch y mater hwnnw.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod Mr Davies yn cael rhybudd terfynol ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, roi rhybudd terfynol i Mr Eirwyn Lyn Davies ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

## 5. MR RUSSELL ALAN HOWE - TRWYDDED YRRU DDEUOL AR GYFER CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Atgoffwyd y Pwyllgor ei fod wedi gohirio ystyried y cais hwn yn y cyfarfod oedd wedi ei gynnal ar 19 Chwefror, 2018 gan nad oedd Mr Howe yn gallu bod yn bresennol.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Mr Russell Alan Howe o 28 Parc y Bryn, Caerfyrddin, yn meddu ar Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat gan yr Awdurdod a bod mater wedi codi ynghylch ei drwydded.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Howe ynghylch y mater hwnnw.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod Mr Howe yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

Ar hynny:

**PENDERFYNODD y Pwyllgor gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, fod Mr Russell Alan Howe yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

**6. MR DAVID GEORGE HOPKINS - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL AR GYFER CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr David George Hopkins o 4 Dolau Bran, Llanymddyfri am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Hopkins ynghylch ei gais. Yn ogystal, adroddwyd 3 o ddatganiadau tyst i'r Pwyllgor gan yr Uwch-swyddog Trwyddedu.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Hopkins yn cael ei wrthod.

Ar hynny:

**PENDERFYNODD y Pwyllgor gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, ganiatáu cais Mr David George Hopkins am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

Y Rhesymau

Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, yr oedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

## 7. DEDDF TRWYDDEDU 2003 - CAIS YN YMWNEUD Â DOSBARTHIAD FFILM

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad yn amlinellu cais a dderbyniwyd gan Mrs Mair Craig ar ran Ystafelloedd Darllen Llansadwrn am argymhelliad ynghylch caniatáu i blant wylio dwy ffilm nad oeddynt wedi cael eu dosbarthu yn flaenorol.

Yr oedd yr ymgeisydd yn bwriadu arddangos dwy ffilm Gymraeg, sef "Sampli" a "Helfa'r Heli", cyn dangos ffilm dystysgrifedig yn y sinema gymunedol. Yn ogystal, yr oedd y safle'n bwriadu gweithredu'r sinema gymunedol o dan yr esemptiadau safle cymunedol a nodir ym mharagraff 6A o Atodlen 1 i Ddeddf Trwyddedu 2003.

Nododd y Pwyllgor y dylai'r ffilmiau a ddangosir gael argymhelliad ynghylch caniatáu i blant eu gwylio, a roddwyd naill ai gan gorff Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain neu gan yr Awdurdod Trwyddedu perthnasol, a hynny er mwyn bodloni gofynion Deddf Trwyddedu 2003.

Er mwyn i'r Pwyllgor wneud yr argymhelliad gofynnol ynghylch caniatáu i blant wylio'r ffilmiau, cafodd y Pwyllgor gyfle i wylio'r ddwy ffilm fer gan roi ystyriaeth i'r cyfeiriadau at ymddygiad dynwaredadwy, iaith, noethni a rhyw.

Rhoddwyd sylwadau ysgrifenedig i'r Pwyllgor gan yr ymgeisydd ynghylch y ddwy ffilm.

Rhoddodd y Pwyllgor sylw priodol i'r paragraffau perthnasol o Ddatganiad Polisi Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu ac o Ganllawiau gan Fwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain a oedd wedi'u hatodi i'r adroddiad yn Atodiad 1.

Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth oedd ger ei fron,

**PENDERFYNODD Y PWYLLGOR:**

1. **y dylai "Sampli" gael ei hystyried yn ffilm sydd dan gyfarwyddyd rhiant (PG)**
2. **y dylai "Helfa’r Heli" gael ei hystyried yn ffilm sy'n addas i blant 12 oed a hŷn (12A)**

<u>Y Rhesymau</u>

Wrth benderfynu ar y cais, yr oedd y ffeithiau canlynol yn hysbys i'r Pwyllgor;

- Nid yw'r un o'r ffilmiau wedi cael eu dosbarthu gan Fwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain neu awdurdod lleol arall.
- Mae cynnwys y ffilm "Sampli" yn bodloni meini prawf Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain ar gyfer gradd PG.
- Mae cynnwys y ffilm "Helfa’r Heli" yn bodloni meini prawf Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain ar gyfer gradd 12A.


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

Ar ôl ystyried cynnwys y ddwy ffilm, sylwadau a gafwyd gan yr ymgeisydd a chanllawiau gan Bwyllgor Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain, mae'r Pwyllgor yn fodlon bod angen dosbarthu'r ddwy ffilm fel y dangosir uchod er mwyn hyrwyddo'r Amcan Trwyddedu o ran amddiffyn plant rhag niwed.

Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod hyn yn ymateb cymesur i gynnwys penodol pob ffilm.

**8. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD AR 19 CHWEFROR, 2018.**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 19 Chwefror 2018 yn gywir.**

| | |
|---|---|
| ________________________ | ____________________ |
| **CADEIRYDD** | **DYDDIAD** |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol